Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil
Welsh Parliament | Research Service

P-06-1196 Sefydlu System Wobrwyo Genedlaethol Er Anrhydedd; Gwobr Urdd Marchog Cymru

Y Pwyllgor Deisebau | 4 Hydref 2021
Petitions Committee | 4 October 2021

Cyfeirnod: SR21-0837-8

Rhif y ddeiseb: P-06-1196

Teitl y ddeiseb: Sefydlu System Wobrwyo Genedlaethol Er Anrhydedd; Gwobr Urdd Marchog Cymru

Geiriad y ddeiseb:

Yr ydym ni, y cyhoedd yng Nghymru, wir yn dymuno dod ag Urddas i Gyflawnwyr ein Cenedl

Mae'n drasiedi lwyr bod cynifer o gyflawnwyr ein Cenedl wedi'u claddu, yn angof a heb eu dathlu mewn beddi ym mhob cwr o'r byd.... drwy gydol ein hanes balch a hir

Fy nymuniad, ers tro, yw anrhydeddu'r eneidiau hyfryd hyn, yma yng Nghymru sydd wedi ymuno mewn hanes a'u calonau, mae'n debyg, wedi torri o wybod na chawsant eu gwir gydnabyddiaeth yng..... "Ngwlad ein Mamau a'n Tadau "

1. System anrhydeddau'r DU

1.1. Cefndir

Rhoddir anrhydeddau gan y brenin neu'r frenhines. Mae'r mwyafrif o anrhydeddau a roddir heddiw yn rhan o Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig. Cafodd hyn yn ei sefydlu gan Frenin Siôr y Pumed ym 1917 i wobrwyo gwasanaeth di-frwydro yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae'r Goron yn fater a gedwir yn ôl o dan Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hyn yn cynnwys system anrhydeddau'r DU.

1.2. Dethol

Gall unrhyw un enwebu rhywun i gael anrhydedd. Mae Llywodraeth y DU yn cyhoeddi arweiniad ynghylch am beth y ceir rhoi anrhydeddau.

Mae deg pwyllgor pwnc annibynnol yn ystyried enwebiadau am anrhydeddau ac yn cynghori'r Prif Weinidog. Mae'r Prif Weinidog yn cyflwyno rhestr o argymhellion ar gyfer anrhydeddau i'r Frenhines. Mae'r Ysgrifennydd Amddiffyn a'r Ysgrifennydd Tramor hefyd yn cyflwyno rhestrau.

Cyhoeddir y rhestrau anrhydeddau adeg y Flwyddyn Newydd a Phen-blwydd Swyddogol y Frenhines ym mis Mehefin.

1.3. Gwobrau

Gall y Frenhines ddyfarnu gwahanol fathau o anrhydedd, gan gynnwys gwneud rhywun:

- yn Gydymaith Anrhydedd;
- yn Farchog neu'n Fonesig;
- yn Gomander Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (CBE), yn Swyddog Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (OBE), neu Aelod o Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (MBE).

Gall y Frenhines hefyd dynnu anrhydeddau yn ôl yn unol â chyngor Gweinidogion a Phwyllgor Fforffedu. O dan Ddeddf Anrhydeddau (Atal Cam-drin) 1925, mae'n anghyfreithlon masnachu mewn anrhydeddau.

2. Gwobrau Dewi Sant

2.1. Cefndir

Ym mis Chwefror 2013, fe wnaeth y Ceidwadwyr Cymreig gyflwyno cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru (ar y pryd):

1. Yn nodi pwysigrwydd cydnabod a dathlu hunaniaeth ddiwylliannol Gymreig; ac

2. Yn credu y dylid ystyried cyflwyno System Anrhydeddau Cymreig i gydnabod a gwobrwyo'r rhai sydd wedi gwneud cyfraniadau gwerthfawr i fywyd Cymru. [...]

Cymeradwyodd y Cynulliad y cynnig. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi dechrau Gwobrau Dewi Sant ym mis Gorffennaf y flwyddyn honno, a rhoddwyd y gwobrau cyntaf ym mis Mawrth 2014. Ers hynny, mae'r gwobrau'n cael eu rhoi bob blwyddyn.

2.2. Dethol

Ceir deg gwobr Dewi Sant, a phob un mewn categori gwahanol. Yn y naw categori cyntaf, gall unrhyw un enwebu unigolion neu grwpiau. Mae Pwyllgor Cynghori annibynnol Gwobrau Dewi Sant yn dewis y rhai sy'n cyrraedd y rownd derfynol a'r Prif Weinidog sy'n dewis yr enillwyr. Y wobr olaf yw Gwobr Arbennig y Prif Weinidog; y Prif Weinidog sy'n dewis yr enillydd yn uniongyrchol.

2.3. Gwobrau

Mae enillwyr gwobrau Dewi Sant yn cael tlws, ac mae'r rhai sy'n cyrraedd y rownd derfynol yn cael tystysgrif a bathodyn arian.

3. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Fe wnaeth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ymateb i'r ddeiseb hon ym mis Medi 2021, gan gadarnhau nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno system anrhydeddau sy'n benodol i Gymru.

Yn y llythyr, dywedodd y Gweinidog:

> Rwy'n credu y dylid ystyried sut mae gwneud System Anrhydeddau'r DU yn fwy cynhwysol, o ran ei phrosesau ond hefyd mewn perthynas â'i chyd-destun diwylliannol hanesyddol.

Nododd y Gweinidog y byddai'n barod i roi mewnbwn i unrhyw adolygiad o ran sut y gellid gwneud y system anrhydeddau yn fwy cynhwysol, a bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i helpu i gynyddu amrywiaeth y bobl sy'n cael eu henwebu ar gyfer anrhydeddau.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.